# NEWELL, EBENEZER JOSIAH (1853 - 1916), clerigwr, ysgolfeistr, a hanesydd

**Enw:** Ebenezer Josiah Newell
**Dyddiad geni:** 1853
**Dyddiad marw:** 1916
**Rhiant:** C. W. Newell
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr, ysgolfeistr, a hanesydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Lawrence Thomas

Ganwyd yn Southwark yn 1853 yn ail fab i C. W. Newell. Aeth yn 1872 i Goleg Worcester, Rhydychen, a graddiodd yn 1876. Bu'n athro mewn ysgol yng Nghaerdydd. Urddwyd ef yn 1890, yn gurad yng Nghastell Nedd, a chadwai ysgol yno. Agorodd ysgol ym Mhorthcawl yn 1891, a chynhaliai ddosbarthiadau nos; trwyddedwyd ef hefyd yn gurad Trenewydd Notais. Yn llyfrgell Cwrt Notais (gweler yr ysgrif ar Knight o Landidwg) enynnwyd ynddo ddiddordeb yn hanes yr Eglwys yng Nghymru, a gwnaeth waith da ar y pwnc - yr oedd hefyd yn aelod blaenllaw o Gymdeithas Hynafiaethau Cymru. Heblaw cyfrol o farddoniaeth (*The Sorrow of Simona*), 1882, cyhoeddodd *A Popular History of the Ancient British Church*, 1887; *A History of the Welsh Church to the Dissolution of the Monasteries*, 1895 (traethawd buddugol yn yr eisteddfod genedlaethol); *The Diocese of Llandaff*, 1902; a *S. Patrick, his Life and Teaching*, 1890. Ddiwedd 1900, cafodd ficeriaeth Neen Sollers, Cleobury Mortimer (yn Sir Amwythig), a bu farw yno ddechrau Mehefin (claddwyd 6 Mehefin) 1916.

## Awdur

**Yr Archddiacon Lawrence Thomas**, (1889 - 1960)

## Ffynonellau


Foster, *Alumni Oxonienses*

*Crockford's Clerical Directory*

*Shropshire Parish Register Society. Publications*

gwybodaeth gan ei fab, y Parch. L. B. C. Newell


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 47134896

Wikidata: Q20732912


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu